# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 13 Mai, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea, M.J.G. Morgan, R. Sivagnanam a S.T. Wiliam.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorwyr P. Drake, M. Morgan a H. Hamilton fuddiant yn Eitem 3 ar yr Agenda – Cais i gofrestru tir yn Glebe Fields, South Road, Sully fel maes tref neu bentref o dan adran 15 o Ddeddf Tir Comin 2006 – oherwydd bod y tir yn cael ei reoli gan Bwyllgor Ystad Deddf Eglwys Cymru. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn aelodau o Bwyllgor Ystad Deddf Eglwys Cymru, gyda'r Cynghorydd Drake yn Is-gadeirydd iddo. Felly, roedd y swyddogion perthnasol wedi cynghori'r Cynghorwyr hyn i ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod ar gyfer Eitem 3 fel mesur rhagofalus.

EITEM AGENDA 3. ADRODDIAD PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD MEWN PERTHYNAS AG AWDURDOD COFRESTRU TIR COMIN BRO MORGANWG - CAIS I GOFRESTRU TIR YN GLEBE FIELDS, SOUTH ROAD, SULLY FEL MAES TREF NEU BENTREF O DAN ADRAN 15 O DDEDDF TIR COMIN 2006 (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y BOD ymchwiliad cyhoeddus anstatudol yn cael ei gynnull i ystyried y Cais.

(2) Y BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael pŵer dirprwyedig i benodi cadeirydd annibynnol sydd â chymwysterau cyfreithiol a phrofiad addas i gynnal ymchwiliad cyhoeddus anstatudol i ystyried y Cais.

(3) Y BOD cost penodi cynghorydd i gadeirio'r ymchwiliad cyhoeddus anstatudol, ac unrhyw gostau ategol iddo, yn cael eu talu o gyllideb y Gwasanaethau Cyfreithiol.

(4) Y BOD, ar ddiwedd yr ymchwiliad cyhoeddus anstatudol, gofynnir i'r cadeirydd gynhyrchu adroddiad ar gyfer yr Awdurdod Cofrestru Tir Comin sy'n ystyried y

dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi ac yn erbyn y Cais ynghyd â'r dystiolaeth a glywyd yn yr ymchwiliad ac i roi argymhelliad i'r Pwyllgor hwn a ddylid cofrestru'r Tir fel Maes Tref neu Bentref o dan y Ddeddf ai peidio.

(5) Y BOD adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl derbyn adroddiad y cadeirydd yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus anstatudol er mwyn penderfynu ar y Cais.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1–5) Er mwyn i'r Cyngor fel Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin allu cyflawni a mabwysiadu gweithdrefn deg a thryloyw i benderfynu ar y Cais yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 5. DISGYBLU AR GYFER GYRRWR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT CYFREDOL – M (CAT) (PARAGRAFFAU GWYBODAETH EITHRIEDIG – 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – BOD y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal y drwydded, ond y dylid rhoi rhybudd pellach i'r gyrrwr mewn perthynas â'r gofyniad i ddatgelu euogfarnau yn unol ag amodau'r gyrrwr, yn ogystal ag ar ffurflenni cais adnewyddu. Hefyd y dylid hysbysu'r gyrrwr y dylid trefnu cymorth yn ffurfiol yn hytrach na thrwy fynychu'r swyddfa ar sail 'galw heibio'.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad ac yn y cyfarfod, ac i sicrhau bod Gyrrwr M. yn deall gofynion eu trwydded, a'r ffordd gywir o gael cymorth gan swyddogion, os oes angen.